# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 27/02/2023 7:00yh – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| John Brinley Jones (Cad) | Thomas Victor Jones | David Andrew Parry | William Roger Jones |
| Gwenllian Davenport Hughes | Alan Harper-Smith | Greta Hughes | Hywel James Sinclair Evans |
| Ian Goronwy Williams | Ann L Williams (Cyfieithydd) | Pat Humphreys (Clerc) | |

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. **Ymddiheuriadau**
   Alaw Ceris.

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**
   Dim.

3. **Cofnodion Pwyllgor 30/01/2023**
   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.
   Cynnig: David Andrew Parry    Eilio: Thomas Victor Jones

   Materion yn codi o'r cofnodion:
   Dim.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Damwain ar y bont tu allan i'r Eglwys
   Derbyniodd y cadeirydd wybodaeth bod damwain wedi digwydd yn hwyr y prynhawn yma ar y bont tu allan i'r Eglwys ac o ganlyniad i'r ddamwain mae un person wedi gorfod mynd i'r Ysbyty. Mae'r cadeirydd wedi bod yno hefo Roger Fisher i roi rhaff yno dros dro gan ein bod yn aros i gontractwr ei thrwsio ac mae o am gysylltu hefo'r contractwr bore yfory i symud pethau ymlaen yn sydyn ac i drwsio'r bont cyn gynted a phosibl.
   Datblygiad Solar Lôn Pin
   Ar ôl dros flwyddyn mae'r clerc wedi derbyn ebost hefo atebion i'r cwestiynnau a anfonwyd at y cwmni nôl yn Rhagfyr 2021 ac mae hi wedi anfon yr ebost ymlaen i'r aelodau. Mae'r llythyr yn dweud eu bod yn bwriadu rhoi cais cynllunio i fewn cyn diwedd mis Mawrth ond cyn hynny maent eisiau cyflwyno'r bwriad i'r cyhoedd mewn ffurf arddanghosiad yn ystod y prynhawn a cyflwyniad gyda'r nos ac yn cynnig dyddiad sef y 22ain o Mawrth. Mae'r aelodau yn awyddus i gael barn cymydog y safle sef Mr Valentine ac felly mae Alan Harper-Smith am anfon yr atebion iddo ac hefyd am ddweud wrtho am y cyflwyniad a'r arddanghosiad. Cytunodd yr aelodau bod y 22ain o Fawrth yn iawn ac mae'r clerc am adael iddynt wybod.
   Bin gwyrdd y Fynwent
   Nid yw bin gwyrdd y fynwent wedi cael ei wagio y flwyddyn yma ac fe wnaeth y clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn pam. Derbyniwyd eglurhad ganddynt yn dweud fod swyddogion

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869•

Cyngor Gwynedd wedi bod o amgylch yn gwneud yn saff fod pawb sydd i fod i dalu am y gwasanaeth yma yn gwneud ac oherwydd nad oedd y Cyngor Cymuned erioed wedi talu, nac yn ymwybodol eu bod i fod i dalu, mae'r casgliadau wedi cael eu stopio. Mae'r clerc wedi derbyn rhestr o'r gost a'r unig beth sydd angen penderfynnu ydi pa mor amal sydd angen gwagio'r bin.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Victor Price i ofyn pa mor amal, yn ei farn o, sydd angen gwagio'r bin ac yna gyrru ebost i'r aelodau hefo'r wybodaeth. Mae'r clerc am ofyn iddo hefyd os oes angen casgliad ym mis Mawrth eleni gan na fydd y gytundeb newydd yn cychwyn tan 1af o Ebrill a cytunwyd i ofyn am un os yw Victor Price yn dweud bod ei angen.

Cyfarfod Clwyd Alun

Mae'r clerc wedi cael galwad ffon gan Clwyd Alun yn dweud eu bod eisiau trefnu cyfarfod rhwng aelodau'r Cyngor Cymuned, Cyngor Gwynedd â'r Bwrdd Iechyd i drafod y datblygiad yn Penrhos ac wedi cynnig 10 dyddiad posibl ym mis Mawrth.
Penderfyniad: cytunwyd ar un dyddiad o bob wythnos sydd wedi cael ei gynnig a'r clerc i adael i Clwyd Alun wybod.

Ebost Alaw

Derbyniodd y clerc ebost gan Alaw Ceris yn ymddiheuro ar gyfer y pwyllgor heno ac yn mynd ymlaen i ddweud ei bod yn teimlo y bydd rhaid iddi roi gorau i'r Cyngor Cymuned gan nad yw yn gallu ymroi yn ddigonol i'r Cyngor ar hyn o bryd oherwydd prysurdeb bywyd ac ymrwymiadau eraill.
Penderfyniad: peidio a derbyn ei ymddiswyddiad heno ond rhoi y cyfle iddi fynychu'r cyfarfodydd dros y misoedd nesaf ond os na fydd yn gwneud hynny ac y bydd 6 mis yn pasio heb iddi fynychu yna fe fydd yn cael ei diarddel yn unol a'r gyfraith. Penderfynwyd i atgoffa Patricia Hope-Whitney o hyn hefyd gan nad yw wedi mynychu cyfarfod ers mis Hydref 2022.

5. **Llwybrau**

Cae Pentra Llan – cwningod

Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i weld os yw'r adran difa pla yn gallu gwneud rhywbeth am y pla cwningod yn Cae Pentra Llan ond yn anffodus nid ydynt yn delio hefo cwningod felly mae'r cadeirydd wedi gofyn i Roger Fisher fynd yno i lenwi'r tyllau i fewn ac i lenwi'r tyllau cwningod sydd yn y fynwent hefyd. Mae Alan Harper-Smith yn cynnig gofyn i rhywun ddod yno i'w saethu ond gan fod y safle ynghanol tai nid yw hyn yn syniad da. Mae hyn yn broblem ym mhob man ac felly mwy na thebyg does dim i'w wneud am y peth.

6. **Y Fynwent**

Dyfynbris i archwilio'r cerrig beddi.

Derbyniwyd ebost gan Hefin Underwood hefo dyfynbris i archwilio'r cerrig beddi ac mae'r clerc wedi ei anfon ymlaen i'r aelodau.
Penderfyniad: derbyn y dyfynbris a cario ymlaen gyda'r gwaith cyn gynted a phosibl a bob blwyddyn o hyn allan.
Cynnig: David Andrew Parry   Eilio: Gwenllian Davenport Hughes

Adolygu Ffioedd Claddu

Mae'r clerc wedi anfon ffioedd claddu Cynghorau Cymuned a Thref eraill i'r aelodau iddynt gael cyfle i edrych drostynt cyn y cyfarfod. Y teimlad yw na ddylid eu codi yn ormodol gan

fod costau claddu ddigon uchel fel ac y mae felly mae'r cadeirydd yn cynnig i godi bob ffi 10%.
Penderfyniad: codi'r ffioedd 10%
Cynnig: David Andrew Parry   Eilio: Ian Goronwy Williams
<u>Y Fynwent Newydd – Cyfarfod hefo Gamlins</u>
Fe fu'r cadeirydd a Greta Hughes mewn cyfarfod hefo Gamlins y prynhawn yma ac ni ellir symud ymlaen hefo hyn nes y bydd wedi cael copi o'r gweithredoedd gwreiddiol gan y Gofrestrfa Tir felly mae o am drefnu hynny cyn gynted a phosibl. Gofynnodd os oedd yna gyfamod arno ac mae yna ond heb weld y gweithredoedd gwreiddiol nid oes modd gwybod beth ydyw. Mae'n hyderus y bydd copi wedi ei dderbyn cyn ddiwedd yr wythnos ac mae o am anfon ebost i'r cadeirydd, Greta Hughes a'r clerc wedi hynny.

7. **<u>Cae chwarae</u>**
Gan nad yw Alaw Ceris yn bresennol heno nid oes modd cael diweddariad. Pasiwyd i ofyn wrthi am ddiweddariad cyn bob pwyllgor er mwyn i'r aelodau gael gwybod beth sydd yn mynd ymlaen yno.

8. **<u>Neuadd y Pentref</u>**
<u>Ail-sefydlu is-bwyllgor penodol ar gyfer y neuadd</u>.
Cynhaliwyd pwyllgor ar yr 8fed o Chwefror a trafodwyd codi prisiau llogi'r neuadd a cytunodd yr Ysgol Feithrin a'r 'Old Time Dancing' i dalu mwy o ffi o hyn allan. Mae problem gyda'r toiledau ac mae Barbara Warren am wneud ymholiadau gyda adeiladwr lleol i fynd yno i weld beth sydd angen ei wneud ac hefyd am gysylltu hefo trydanwr i fynd i wneud arolwg trydanol yno. Mae'r clerc wedi anfon y dogfennau yswiriant newydd am 2023-2024 i Ian Goronwy Williams a David Andrew Parry gan ei fod yn ddyledus cyn Ebrill 2023. Mae'r pwyllgor hefyd angen cau y cyfrif banc yn Lloyds ac agor cyfrif newydd yn Nat West gan fod y gangen leol o Lloyds wedi cau ym Mhwllheli.

**<u>Taliadau wedi eu cymeradwyo</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** Pat Humphreys | **£416.00** |
| **HMRC –** PAYE Mis 11 | **£104.00** |
| **Ann Llwyd –** Cyfieithydd | **£170.00** |
| **Ashley Hughes –** stamps | **£7.60** |
| **Mr D Russell –** Gwaith yn Cae Pentra Llan ac o flaen yr Ysgol | **£393.00** |
| **Zurich Municipal –** Yswiriant 23-24 | **£649.40** |
| **Un Llais Cymru –** Aelodaeth 2023-2024 | **£268.00** |
| **Cyngor Gwynedd** – Bin gwyrdd y Fynwent | **£15.00** |

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 27/02/2023 7:00yh – O Bell

**Taliadau wedi eu Derbyn**

| | |
|---|---|
| **Tŷ Doctor Nefyn –** Ad-daliad Cronfa Covid-19 | **£678.55** |

**Ceisiadau Cynllunio**

**C23/0096/38/LL** – Henllys Isaf, Lôn Pin, Llanbedrog – Cais llawn i newid defnydd adeilad allanol presennol i dŷ fforddiadwy ar gyfer angen lleol gyda gwaith cysylltiol.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad ond i atgoffa'r Adran Gynllunio bod yna amod ar gais cynllunio y byngalo Henllys Isaf fod yr Henllys Isaf gwreiddiol (sy'n destun y cais yma) i fod i gael ei ddymchwel ar ôl gorffen y gwaith ac hefyd bod angen cytundeb adran 106 cryf iawn arno ac ddim i'w dynnu i ffwrdd fel ei fod yn aros yn dŷ fforddiadwy i berson lleol am byth.

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.
Dim.

**Cais am gyfraniad**
Dim.

**Craig y Glyn, Llanbedrog**
Derbyniodd y clerc gŵyn gan aelod o'r cyhoedd fod carafan sefydlog wedi cael ei lleoli ar y tir yma yn ddiweddar ynghŷd â carafan symudol a tanc mawr du ac mae hi wedi cysylltu hefo Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd i ddweud wrthynt ac mae'r Swyddog Gorfodaeth am fynd allan i gael golwg beth sydd yn mynd ymlaen yno.

**Glan Gors, Llanbedrog**
Tra 'roedd y clerc ar y ffôn hefo'r Adran Gynllunio am y mater uchod fe gafodd gyfle i ofyn am ymateb i'w ebost nôl ym Mehefin 2022 a Medi 2022 ynglŷn â'r torri coed a clirio y rhan helaeth o'r safle yn Glan Gors. Fe aeth y Swyddog Gorfodaeth drwy'r cais cynllunio a ganiatawyd yno ac oherwydd nad oedd Gorchymyn Gwarchod Coed ar y coed sydd wedi cael eu torri i lawr a dim datblygiad o'r newydd wedi cael ei gychwyn yno heb ganiatad yna nid ydynt wedi torri unrhyw amod cynllunio ac felly nid oes dim y gellir ei wneud.

Mae Thomas Victor Jones eisiau tynnu sylw'r aelodau at yr ymateb a dderbyniwyd gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r diffyg bollardau llifogydd ar yr A499 a'r ffaith eu bod wedi cyfeirio'r aelodau at 'Google' sydd ddim yn ateb boddhaol o gwbwl.

Dywedodd Thomas Victor Jones y derbyniwyd cwynion gan bob Cyngor Cymuned a Thref oedd yn bresennol yng nghyfarfod Un Llais Cymru yr wythnos ddiwethaf ynglŷn â'r diffyg ymateb gan Cyngor Gwynedd i ymholiadau ac mae Un Llais Cymru wedi gyrru llythyr swyddogol iddynt yn tynnu eu sylw at hyn.

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869•

## Cofnodion Cyfarfod 27/02/2023 7:00yh – O Bell

Fe yrrodd Alan Harper-Smith ebost i'r aelodau ynglŷn â'r biniau sydd wedi diflannu o ardal y llecyn mwyniant yn ddiweddar, mae o wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd ac yn aros am ymateb.

Dywedodd y clerc ei bod yn mynd i drefnu cyfarfod rhwng yr aelodau a Lily Usher o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol cyn y Pasg ac fe fydd yn anfon ebost i bawb ynglŷn â hyn mis nesaf.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.35y.h.